

Cyngor Cymuned Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
Ebrill 19eg 2012; 7 o'r gloch, Y Ganolfan, Bontnewydd

YN BRESENNOL OEDD : Cynghorydd Erddyn Davies, yn cadeirio'r cyfarfod, gyda Cynghorydd T. Cyril Owen, Geraint R. Jones, Emyr Williams, ac Ifor D. Williams, a'r clerc, Bryn Hughes.

DATGAN DIDDORDEB / BUDDIANT PERSONOL

Cynghorydd Emyr Williams ar Cae'r Helygen, Bontnewydd : oedd yr eitem er Gwybodaeth yn unig. Cynghorydd Geraint R. Jones ar gais cymorth ariannol, cyfeirnod R5 : fe adawodd y cyfarfod. Cynghorydd Erddyn Davies ar gais cymorth ariannol, cyfeirnod R16 : fe adawodd y cyfarfod.

YMDDIHEURIADAU

Mr Hywel Williams, AS; Cynghorydd Dafydd Iwan; Cynghorydd Rhys Pugh; Cynghorydd Marian Roberts a Cynghorydd Hilma Ll. Edwards.

Parc y Plwyf, Llanfaglan.

Cafwyd adroddiad gan y clerc ei fod yn trefnu cyfarfod gyda Mr Geraint Wyn Hughes, Rheolwr Uned Weithredol Bwrdeistrefol, er mwyn iddo cael golwg ar y prosiect, prisio a chreu manyleb am y gwaith. Gofynnodd Cyng. Geraint R. Jones beth oedd ymateb Cyngor Gwynedd i'r problem parcio. Nid oedd y gohebiaeth ar gael gan y clerc a bydd yn ymateb i'r cwestiwn yn y cyfarfod nesaf.

Casgliadau gwastraff dros cyfnod gwyliau'r Nadolig.

Adroddodd y clerc y cafwyd cyfarfod buddiol a phositif iawn gyda Mr Steffan Jones a'r Cynghorydd Dafydd Iwan a Cynghorydd Sir, Chris Hughes. Yn y cyfarfod, fe drafodwyd y Gwasanaeth Casglu biniau bwyd yn wythnosol fydd yn cychwyn yn fuan iawn, a'r bwriad i gynnal cyfarfod cyhoeddus yn Y Ganolfan, Bontnewydd. Fe gadarnhaodd y clerc na fydd Gwasanaeth casglu Ddydd Mawrth 25 Rhagfyr 2012, ond mi fydd casgliad arferol Ddydd Mawrth 1 Ionawr 2013. Fe gytunwyd y bydd y Gwasanaeth casglu gweddillion bwyd wythnosol yn lleihau'r broblem.

Archwilio cyfrifon 2011-12.

Cafwyd adroddiad gan y clerc ynglyn y calendr ar gyfer archwilio cyfrifon, cynnal cyfarfod cyntaf ar ôl yr Etholiad, a throsglwyddo dogfennaeth CThEM. Mae'r archwiliwr mewnol wedi clustnodi 11 Mai i'r clerc drosglwyddo'r dogfennau sydd angen ei archwilio iddo, mae'n rhaid cynnal y cyfarfod cyntaf ar ôl Etholiad dim hwyrach na 17 Mai, ac mae'n rhaid trosglwyddo'r dogfennau yn electroneg i CThEM dim hwyrach na 19 Mai neu fydd cosb ariannol. Mae'n bosibl y bydd angen cynnal cyfarfod arbennig cyn 31 Mai er mwyn derbyn y cyfrifon ar ôl archwiliad.

Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012

Adroddodd y clerc ei fod wedi mynd o gwmpas yr ardal ym ymweld a fusnesau a sefydliadau gyda cynnig y Cyngor Cymuned i archebu'r fflagiau cyn belled a fo'r busnes yn fodlon ei osod. Y busnesau/sefydliadau cytunodd i wneud hynny yw : Yr Ysgol Gynradd, Siop Costcutter, Siop Beuno, Tafarn y Niwbwrch, Meifod, Parc Coed y Sipsiwn, Y Penfras Aur, a Hillburn. Dywedodd ymhellach ei fod wedi gosod archeb am y fflagiau.

CYFRIFON 2011-2012 DATGANIAD Y BANC : Balans hyd at 28 Mawrth 2012 yn £11654.39

CYFLOG A CHOSTAU CLERC MAWRTH 2012 : Cyflog gros = £208.18, Treth Incwm = £- 41.60, Cynnal Swyddfa = £45.00, Costau a threuliau = £20.82 Cyfanswm net = £232.40

CYFLOG A CHOSTAU CLERC EBRILL 2012 : Cyflog gros = £208.18, Treth Incwm = £- 41.60, Cynnal Swyddfa = £45.00, Costau a threuliau = £129.71 Cyfanswm net = £341.29

Gofynnodd Cynghorydd Emyr Williams i'r clerc paham fod y costau a threuliau ym mis Ebrill yn uwch na'r arfer. Atebodd y clerc fod y bil ffôn yn cael ei gyflwyno yn chwarterol yn lle misol fel yn y gorffennol, a bod yr elfen rhent, sydd yn y cytundeb cyflogaeth, yn rhan o'r cais. Derbyniwyd yr ateb.

CYNLLUNIO

CAE'R HELYGEN, BONTNEWYDD : Gorchymyn diogelu Coed A90 (Dros dro) – rhoddwyd y gorchymyn dros dro ar y tir oherwydd y gwaith torri coed a clirio gwrychoedd sylweddol sydd wedi bod yn mynd ymlaen ar y tir.

WORKSHOP, DOL BEUNO : CAIS CYNLLUNIO C12/0477/19/LL yn lle CAIS CYNLLUNIO C11/0640/19/AM amlinellol cafodd ei dynnu'n ôl - Adeiladu Tŷ Annedd Deu-lawr Fforddiadwy :
Fe drafodwyd y cais cynllunio cyntaf yng nghyfarfod Medi 15fed 2011, ac o ganlyniad, fe ysgrifennodd y clerc lythyr i'r Adran Cynllunio yn datgan gwrthwynebiad y Cyngor Cymuned i'r cais a rhoddwyd rhesymau am hynny. Fe benderfynwyd nad yw barn y Cyngor Cymuned wedi newid, a cyfarwyddwyd y clerc i ddanfôn llythyr arall i'r Adran Cynllunio yn ei atgoffa fod y Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu'r cais am y rhesymau canlynol :

- **GOR-DDATBLYGU** - Y dylid gwrthwynebu'r cais oherwydd gor-ddatblygu mewn ardal sydd eisoes yn gyfyng.
- **IECHYD A DIOGELWCH** - Mae'r datblygiad mewn rhan o'r pentref ble leolir busnes prysur ac Ysgol Gynradd. Nid yw'n le delfrydol ar gyfer datblygiad o'r fath oherwydd y cynydd yn risg Iechyd a Diogelwch y cerddwyr sydd yn pasio'r adeilad ar ei ffordd i'r ysgol. Rhaid ystyried y plant yng nghyd-destun y pwynt yma, yn arbennig unrhyw gerbyd neu cerbydau'r sawl fyddai'n cymryd meddiant or tŷ ac yn parcio y tu cefn i'r tŷ.
- **CARTHFFOSIAETH** - Oedd rhai o'r aelodau yn ymwybodol o broblemau carthffosiaeth hanesyddol a dylid ystyried y cynnydd fydd ar wasanaethau carthffosiaeth y rhan yma o'r pentref pe byddai'r datblygiad yn cael ei ganiatau.

CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

R1 : Cyfeillion y Samariaid, Bangor - Rhodd o £25.00

R2 : Theatr Bara Caws, Caernarfon - Rhodd o £25.00

R3: Gofal Mewn Galar, CRUSE - Rhodd o £25.00

R4 : Cynllun Efe - Fe benderfynwyd i beidio a rhoi rhodd y tro hwn

R5 : Yr Eisteddfod Genedlaethol - Rhodd o £100.00

R6 : Dawns i Bawb, Caernarfon - Rhodd o £25.00

R7 : Ysgol Gynradd Bontnewydd - Rhodd o £574.50

R8 : Eisteddfod Gadeiriol Bontnewydd - Rhodd o £200.00

R9 : Papur Bro Llew - Rhodd o £75.00

R10 : Gofal Cancr Marie Curie - Cais annilys oherwydd na chyflwynwyd datganiad ariannol

R11 : Radio Ysbyty Gwynedd - Cais annilys oherwydd na chyflwynwyd datganiad ariannol

R12 : Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen - Cais annilys oherwydd na chyflwynwyd datganiad ariannol

R13 : Cymdeithas Lenyddol Bontnewydd - Rhodd o £75

R14 : Sefydliad Aren Cymru - Cais annilys oherwydd na chyflwynwyd datganiad ariannol

R15 : Cylch Meithrin Bontnewydd - Talu hanner rhent y Ganolfan dros y Cylch Meithrin am y flwyddyn o 1 Ebrill 2012 tan 31 Mawrth 2013, a rhodd o £300.00 at yr argostau

R16 : Clwb Pêl-droed Ieuencid Bontnewydd - Rhodd o £325.00

R17 : Hwyl y Bont 2012 - Rhodd o £350.00

R18 : Llyfrau Llafar Cymru - Cais annilys oherwydd na chyflwynwyd datganiad ariannol

R19 : Cymdeithas Amaethyddol Gogledd Cymru - Cais annilys oherwydd na chyflwynwyd datganiad ariannol

Etholiad 2012

Mae'r personau canlynol wedi eu hethol yn ddiwrthwynebiad fel Cynghorwyr Cyngor Cymuned Bontnewydd.

WARD CASTELLMAI (9 sedd) : Cynghorydd Geraint R. Jones, Dafydd Iwan, Marian Roberts ac Emyr Williams. Mae 5 sedd yn wâg.

WARD LLANFAGLAN (2 sedd) : Cynghorydd Ifor D. Williams ac Erddyn Davies.

Bydd y Cynghorywyr hynny sydd wedi eu hethol yn ddiwrthwynebiad yn llofnodi datganiad derbyn swydd yng nghyfarfod cyntaf y Cyngor Cymuned Newydd, sef y Cyfarfod Blynnyddol, sydd i'w gynnal ar 17 Mai 2012.

Llanfaglan : Y Foryd

Mae yna bryderon am gyflwr y ffordd ar y safle picnic ar Y Foryd a mae rhai trigolion wedi clywed fod Cyngor Gwynedd yn bwriadu gwenudd i ffwrdd a hi. Cyfarwyddwyd y clerc i ysgrifennu at Mr Meirion Williams, y Peiriannydd Ardal, a'i wneud yn hysbys o gyflwr y ffordd a gofyn beth yw bwriad hir-dymor y Cyngor gyda'r safle picnic.

Llanfaglan : Ffynnon Baglan

Fe dynnwyd i sylw'r clerc gan un o blwyfolion Llanfaglan fod safle Ffynnon Baglan wedi diflannu yn llwyr. Gofynnodd y clerc i'r Cynghorydd Ifor Williams os oedd ef yn ymwybodol o unrhyw broblemau. Cafwyd hanes y Ffynnon gan Mr Williams a cyfarwyddwyd y clerc i edrych ymhellach i'r mater.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : Nos Iau, Mai 17eg 2012 am 7 o'r gloch sef Y CYFARFOD BLYNYDDOL